# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd J.Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; Jim Evans; W.T.Hughes; K.P.Hughes; T.H.Jones; Clive McGregor; R.L.Owen; Eric Roberts; H.W.Thomas; J.Penri Williams; |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ);<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ);<br>Cymhorthydd Cynllunio (GJ);<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ);<br>Prif Beiriannydd (Network)(HP);<br>Uchel Beiriannydd Rheoli Datblygu (EJ));<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) ;<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ); |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb o dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2012.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd - gofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2012.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelod o'r cyhoedd yn siarad ar gais 12.4.

***Cyn parhau gyda Rhaglen y cyfarfod, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol i'r cyfarfod:-***

***Mae'r Awdurdod yn ymwybodol iawn o bryderon nifer o drigolion yr Ynys mewn perthynas â datblygiadau tyrbinau gwynt ynghyd a dyheadau unigolion neu ddatblygwyr i gyflawni cynlluniau ynni gwynt ar Ynys Môn. Rydym yn sensitif i'r pryderon a'r dyheadau hyn.***

***Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol o'r enw Ynni Gwynt ar y Tir a daw'r ymgynghori hwn i ben ar 10 Chwefror. Bydd y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol, wedi i'r Awdurdod ei ystyried, yn disodli'r cyfarwyddyd blaenorol sy'n mynd yn ôl i 1994 a bydd yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y 18 mlynedd diwethaf. Ni fydd y Cyfarwyddyd yn disodli polisi.***

***Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i sicrhau mai dim ond ceisiadau cynllunio ac ynddynt yr holl wybodaeth berthnasol y mae ei hangen o'r cychwyn sy'n cael eu cofrestru ac ni fydd unrhyw geisiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hyd oni fydd Swyddogion mewn sefyllfa i wneud argymhelliad. O'r herwydd, ni fydd unrhyw geisiadau sydd ar Raglen y Pwyllgor ar hyn o bryd yn ymddangos yn y dyfodol hyd oni fydd yr holl ymgynghori wedi dod i ben.***

## 6 CEISIADAU A OHIRIWYD

*Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd T.H.Jones. Aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

**6.1 – 11C572 – Codi tyrbin gwynt gyda hwb na fydd yn uwch na 15m, diamedr rotor o hyd at 9.7m ac uchder mwyaf i ben y llafn o 19.85m ar dir yn Tal y Llyn, Mynydd Parys, Amlwch.**

Roedd y cais yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan Gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011, 2 Tachwedd 2011 a 7 Rhagfyr 2011 roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio ystyried y cais hwn er mwyn gallu cynnal gwaith ymgynghori pellach ynglŷn â lefelau sŵn.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio nad oedd y materion ynglŷn â sŵn wedi cael eu datrys hyd yn hyn ac felly roedd yn dymuno i'r cais gael ei dynnu oddi ar Raglen y Pwyllgor hyd nes y ceid yr holl wybodaeth berthnasol a bod yr holl waith ymgynghori wedi'i gwblhau yn unol â datganiad y Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton ac eiliodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ohirio a'i dynnu oddi ar Raglen y Pwyllgor Cynllunio fel a amlinellwyd uchod.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel yr amlinellwyd uchod.**

**6.2 – 19C1046A/EIA/ECON – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda marina newydd, eiddo preswyl, gwesty defnyddiau masnachol a hamdden ac adwerthu ynghyd â gwaith cysylltiol i adenill tir ac isadeiledd gwasanaethu ym mlaen y môr, Caergybi.**

Gofynnodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio i'r Aelodau ymweld â'r safle oherwydd maint a lleoliad y cais a hefyd oherwydd lefel y diddordeb yn lleol yn y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton y dylid cael ymweliad safle ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Jim Evans.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.3 – 44C288 – Codi tyrbin gwynt gyda hwb na fydd yn uwch na 15m, diamedr rotor o hyd at 9.7m ac uchder mwyaf i flaen y llafn o 19.85m ar dir ym Mhensarn, Rhosgoch.**

*Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd T.H.Jones a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais*

Roedd y cais yn cael ei adrodd gerbron y Pwyllgor oherwydd bod ffi'r cais wedi cael ei thalu gan Gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011, 2 Tachwedd 2011 a 7 Rhagfyr 2011 roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio ystyried y cais y hwn er mwyn gallu cynnal gwaith ymgynghori pellach ynglŷn â lefelau sŵn.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio nad oedd y materion ynglŷn â sŵn wedi cael eu datrys hyd yn hyn ac felly roedd yn dymuno i'r cais gael ei dynnu oddi ar Raglen y Pwyllgor hyd nes y ceid yr holl wybodaeth berthnasol a bod yr holl waith ymgynghori wedi'i gwblhau yn unol â datganiad y Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton ac eiliodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ohirio a'i dynnu oddi ar Raglen y Pwyllgor Cynllunio fel a amlinellwyd uchod.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel yr amlinellwyd uchod.**

## 7. CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION

*Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd Lewis Davies a'r Cynghorydd T.H.Jones ac ni chymerodd y ddau unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y cais. Roedd y ddau Aelod yn absennol yn ystod yr Ymweliad Safle.*

**7.1 – 44C290A – Codi 2 dwrbin gwynt gydag uchder hwb hyd at 29.6m, diamedr rotor hyd at 20m ac uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 39.6m ar dir yn Bodneithior, Llandyfrydog.**

Roedd y cais wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i swyddog yn y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y Cyngor yn disgwyl am fwy o wybodaeth ac felly roedd yn dymuno i'r cais gael ei dynnu oddi ar y rhaglen hyd nes y byddai'r wybodaeth berthnasol wedi'i derbyn a bod yr holl waith ymgynghori wedi'i gwblhau yn unol â datganiad y Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eurfryn Davies bod y cais yn cael ei ohirio a'i dynnu oddi ar Raglenni'r pwyllgor i'r dyfodol fel a nodir uchod.

**PENDERFYNWYD gohirio'r cais fel yr amlinellwyd uchod.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Nid oedd yna unrhyw Geisiadau Economaidd i'w penderfynu.

## 9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY

Nid oedd unrhyw geisiadau am dai fforddiadwy i'w hystyried yn y cyfarfod.

## 10 CEISIADAU'N GROES I BOLISI

**10.1 – 42C228 – Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresennol a chodi 2 annedd newydd yn Bod Hyfryd, Pentraeth.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y cais wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor oherwydd ei fod yn groes i Gynllun Lleol Ynys Môn ond ei fod yn gais y gellir ei gefnogi o dan y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Cynnig oedd hwn i ddymchwel y byngalo dormer bresennol a chodi dwy annedd newydd ar wahân a garej ddwbl.

Roedd yr Aelod Lleol yn cydnabod na allai gynnig y cais na phleidleisio arno ond roedd yn dymuno dweud nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig a'i fod yn cytuno'n llawn gydag argymhelliad y Swyddog.

Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R.L.Owen.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

## 11 CYNIGION DATBLYGU GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w hystyried.

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1 – 11C399D – Lleoli caban coed ar gyfer defnydd preswyl dros dro yn Tyn y Coed, Penrhyd, Amlwch.**

**Roedd y cais wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol y Cynghorydd Gareth Winston Roberts OBE, oedd yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.**

Gofynnodd y Cynghorydd W.T.Hughes am i'r Aelodau ymweld â'r safle oherwydd ei fod eisiau cefnogi'r cais wedi iddo ddarllen yr adroddiad oedd yn rhoi cefndir y cais. Cynigiodd bod yr Aelodau yn ymweld â'r safle ac eiliodd y Cynghorydd Hefin Thomas y cynnig. Pleidleisiodd yr Aelodau o chwe phleidlais i bedair i beidio ag ymweld â'r safle.

Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y cais yn cael ei wrthod yn unol ag argymhelliad y Swyddog, ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau oedd yn adroddiad y Swyddog.**

**12.2 – 13LPA633A/CC – Cais rhanol ôl-dyddiol i wneud gwaith altro ac ymestyn yn Haulfryn, Bodedern.**

Roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd ei fod wedi'i gyflwyno gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R.L.Owen.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**12.3 –19LPA296F/CC – Cais llawn am newidiadau i fynedfa'r ganolfan hamdden a chodi ports yn ffrynt Canolfan Hamdden Caergybi, Ffordd Kingsland, Caergybi.**

Roedd y cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd iddo gael ei gyflwyno gan yr Awdurdod Lleol ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.4 –22C206 – Codi mast anemometr 40.5m o uchder dros dro ar dir i'r de o Rhos Isaf, Llanddona.**

*Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd T.H.Jones a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais.*

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Nigogosian, un oedd yn gwrthwynebu'r cais, siarad gerbron y cyfarfod.
Dywedodd Mr Nigogosian "*The planning application is for an Anemometer (test rig) within the fields of Rhos Isaf and must be taken as the precursor to an industrial size wind turbine submitted for screening opinion on 12th July 2011. I own and live at Rhos Isaf in an 18th Century Grade 11 listed farmhouse with an outbuilding converted into a holiday let business. My home lies nearest to the proposed test rig. I am fearful of the consequences and impact that this application will have upon the surrounding pristine countryside, the wellbeing of my family, my holiday business and the value of my property.*
*The farm lane leading to the proposed test rig is narrow and my buildings already bear the scars of passing farm traffic. I fear road widening to allow heavy commercial vehicles access will also cause damage to ancient hedges.*
*There are other important environmental factors' the fields round the test rig site are home to migrating Geese and Curlews, with well established marshland and water courses.*
*Adjacent to the test rig site are standing stones and a burial Chamber and nearby is the important and historic Hafoty house.*
*This test rig application has caused great concern to the residents of Llanddona, Wern y Wylan and other nearby settlements.*
*In Llanddona Village Hall on the 20th December 2011 the residents voted against the test rig. Our Community Council has listened and also rejected the test rig application.*
*In such a pristine rural area even a test rig should be seen as a large industrial development and should not be permitted.*
*Nor should it be considered until the turbine application it relates to can be examined. The only purpose of the rig is to enable the turbine development. It has no other purpose.*
*Surely it is more important to evaluate the details and the impact that an industrial turbine will have on the surrounding area. If no one knows what might be the final appearance, problems and dangers of the development, no preliminary structure can be justified.*
*We must now allow the spread of industrial onshore turbines on a small and populous island where there will be a danger to the people and damage the local economy. There are no employment opportunities and no profit for the county.*
*The Welsh Government has said that the 7 zones set out in TAN 8 are sufficient for Wales' contribution.*
*Anglesey must say no to this precursor test rig and to onshore industrial turbines.*
*This is, in my opinion, an outrageous and cynical application which must not be permitted.*

Dywedodd yr Aelod Lleol, Y Cynghorydd Hefin Thomas bod yna wrthwynebiad lleol cryf iawn i'r cais hwn yn Llanddona. Roedd cyfarfod cyhoeddus wedi cael ei gynnal cyn y Nadolig gyda 120 o bobl yn bresennol ac o leiaf 100 ohonynt yn bobl leol. Roedd yna wrthwynebiad unfrydol i'r cais. Roedd y Cyngor Cymuned hefyd wedi pleidleisio'n unfrydol yn erbyn y cais. Roedd yn bryderus i ddarllen yn yr adroddiad *"Nid yw'n debygol y bydd yna olygfeydd clir o'r mast o bentrefi Llangoed, Biwmares nac o'r A5025 i Bentraeth oherwydd bod y strwythr yn un mor gul. Cesglir, felly, mai effaith weddol andwyol gaiff y mast arfaethedig ar y dirwedd ac yn weledol ond ni fydd yn cael effaith sylweddol..."*
Roedd am gwestiynu a ellid dweud yr un peth am drigolion Llanddona a Llaniestyn. Gofynnodd i'r Cyngor ymweld â'r safle er mwyn sicrhau y byddai pob agwedd o'r cais yn cael ei ystyried.

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio beth oedd natur y cais. Dywedodd bod pwyntiau'r Gwrthwynebydd yn ymwneud â thyrbin gwynt yn hytrach nag anemomedr. Cynnig oedd hwn am gyfnod dros dro o 18 mis a'i ddefnydd fyddai i fesur a oedd yr amgylchiadau technegol yn rhai ffafriol a'i peidio. Nid cais ydoedd am dyrbin gwynt. Cadarnhaodd y byddai'r mast yn cael effaith weddol niweidiol ond ni fyddai'n cael effaith fyddai'n ddigon sylweddol i haeddu gwrthod y cais.

Ailadroddodd yr Aelod Lleol ei ddymuniad i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle. Cynigiwyd ac eiliwyd hyn gan y Cynghorwyr R.L.Owen a K.P.Hughes.

**PENDERFYNWYD y dylid ymweld â'r safle am y rheswm a roddwyd gan yr Aelod Lleol.**

**12.5 – 34C576B – Cais llawn i godi tair annedd a garejis ar dir yn Bryn Awelon, Llangefni.**

*Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd Lewis Davies a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y cais.*

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried y cais hwn ond nid oedd y Cynghorydd Rhian Medi yn gallu bod yn bresennol ond roedd wedi gofyn i'r Rheolwr Datblygu Cynllunio gyflwyno ei safbwyntiau.

Roedd y Cynghorydd Medi yn dymuno i'r cais gael ei wrthod am y rhesymau a ganlyn:-

- Nid oedd y fynedfa yn addas oherwydd ei bod yn agos i groeslon Rhostrehwfa ac roedd y gwelededd yn gyfyngedig o ochr Bodffordd;
- Rhaid fyddai cymryd i ystyriaeth bod arosfan bws gerllaw;
- Mae'r safle yn agos i le mae plant ysgol yn croesi'r ffordd (plant yr Ysgol Uwchradd ac Ysgol Corn Hir);
- Mae'r ffordd yn un brysur iawn gyda mynedfeydd i wahanol stadau tai.

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y safle mewn ardal ddatblygedig iawn a dywedodd nad oedd yn credu y byddai tri eiddo ychwanegol yn rhywbeth fyddai allan o'i le yma. Yn dilyn ymgynghori gyda'r Adran Briffyrdd, roedd y Swyddogion Priffyrdd wedi cadarnhau bod y fynedfa i'r safle yn dderbyniol oherwydd fe fyddai'r fynedfa honno'n cael ei lledu a'i gwella.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid ymweld â'r safle ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eurfryn Davies. Collodd y cynnig o 6 pleidlais i 5.

Gofynnodd y Cynghorydd Chorlton gwestiwn ynglŷn â maint yr anheddau arfaethedig gan ei fod yn dymuno sicrhau na fyddai'r ardal yn cael ei gorboblogi. Mewn ymateb i gynnig gan y Cynghorydd T.H.Jones y dylid cynnwys amod fyddai'n gofyn am i'r eiddo fod o Safon Tai Ansawdd, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol na ddylid gosod amod o'r fath ar y cais hwn ar wahân i geisiadau eraill a prun bynnag, ni ellid gosod amod o'r fath ar gais am dai sector preifat.

**PENDERFYNWYD o chwe pleidlais i bump i ganiatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn adroddiad y Swyddog.**

**12.6 – 34C626 – Cais amlinellol i godi dwy anedd ar dir ar Stad Isgraig, Lon Newydd, Llangefni.**

Roedd y cais wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod rhan o'r tir ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol.

**Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R.L.Owen.**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.7 –34LPA927B/CC – Gosod paneli solar yn Archifau Ynys Môn, Parc Busnes Bryn Cefni, Llangefni.**

Roedd y cais hwn wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd mai'r Cyngor Sir yw perchen y safle.

**Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.8 – 37LPA598C/CC – Cais amlinellol i godi annedd ar dir Plot 3, Tre Fenai, Brynsiencyn.**

Roedd y cais hwn wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd mai'r Awdurdod Lleol oedd yn gwneud y cais a'i fod ar dir y Cyngor.

**Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd John Chorlton.**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.9 – 43C11T – Cais llawn i godi adeilad hamdden yn cynnwys dau bwll nofio, caffi a swyddfa a hefyd gym ar y llawr cyntaf ym Mhentref Gwyliau Traeth Llydan, Pentre Gwyddel, Rhoscolyn.**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio ac roedd yn dymuno i'r Pwyllgor ymweld â'r safle oherwydd pryderon Priffyrdd a'r lôn gul oedd yn mynd i lawr i'r safle.

Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y Pwyllgor Cynllunio'n ymweld â'r safle ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle ar gais yr Aelod Lleol oherwydd pryderon Priffyrdd.**

**12.10 – 45C264E/AD – Codi 6 o arwyddion amrywiol heb eu goleuo yn Cae Llys Rhosyr, Niwbwrch.**

Roedd y cais wedi ei ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y safle ar dir y Cyngor.

**Cynigiodd y Cynghorydd Clive McGregor bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R.L.Owen.**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

**12.11 – 45C280C/AD – Codi dau arwydd heb eu goleuo ym Maes Parcio Pentref Niwbwrch, Niwbwrch.**

Roedd y cais wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio oherwydd bod lleoliad yr arwyddion i'w gosod ar dir y Cyngor.

**Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R.L.Owen.**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a therfynwyd am 1.35p.m.

**CYNGHORYDD J.ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**